Y Lein Ddillad
Gwybodaeth cefndir am gotwm a masnach

Ynglŷn â chotwm

Cotwm yw'r pwysicaf o bob ffibr naturiol, yn cyfrif am dros hanner yr holl decstilau yn y byd. Mae'n ddefnydd dillad ardderchog gydag ystod enfawr o ddefnyddiau. Gan ei fod mor gryf gellir ei wneud yn decstilau ffein, tenau, yn ogystal â deunyddiau cryf fel denim.

Cotwm bellach yw cnwd anfwytadwy pwysicaf y byd, yn tyfu ar bump y cant o dir amaethyddol y blaned. Mae'n cael ei dyfu mewn dros 80 o wledydd ledled y byd. I sicrhau cnwd da, mae angen cyfnod tyfu heulog, hir, gydag o leiaf 180 o ddiwrnodau heb rew, a digonedd o ddŵr. Ceir yr amodau hyn mewn ardal sy'n ymestyn o amgylch y byd rhwng lledredau 45° gogledd a 30° de.

Mae cotwm wedi cael ei dyfu a'i ddefnyddio gan bobl mewn nifer o rannau o'r byd am o leiaf 5000 o flynyddoedd. Canfuwyd darnau o ddefnydd wedi'i wehyddu a'i liwio yn dyddio yn ôl cyn belled â 3000 CC ger afon Indus yn India. Ar gyfer yr Hen Rufeiniaid a Groegiaid, roedd mwslin ardal delta'r Ganges yn foethusrwydd egsotig a drud.

Cysylltiadau masnach gydag India

Daeth cysylltiadau cyntaf Prydain gydag India drwy fasnachu cotwm a nwyddau eraill. Yn yr ail ganrif ar bymtheg, dechreuodd yr *East India Company* ddod â defnydd o orllewin India, sioliau a sidanau o Kashmir, perlysiau o India'r Dwyrain a Ceylon, a siwgr o Bengal. Yn gyfnewid prynodd India fetelau, newyddbethau, ac ifori. Roedd soffistigedigrwydd a sgil ei chrefftwyr, ystod y nwyddau, a'r ffordd yr oedd cynhyrchu wedi'i drefnu a'i rheoli gan y Wladwriaeth, wedi creu argraff ar yr ymwelwyr gydag India. Roedd defnydd o India mor boblogaidd nes trawsnewid ffasiwn Ewropeaidd.

Am nifer o flynyddoedd, nid oedd modd i Ewrop gystadlu gydag India o ran masnach, ac felly ceisiwyd lleihau dibyniaeth ar y nwyddau moethus hyn. Cafwyd ysgogiad gan y Chwyldro Diwydiannol. Cychwynnodd Prydain osod rhwystrau masnachu ar fewnforio deunydd o India. Yn raddol, gyda threthi llethol, gorfodwyd India i allforio cotwm crai yn lle hynny. Yna proseswyd y cotwm ym melinau newydd Prydain, gan ddechrau cynhyrchu defnydd ar gyfer marchnad India. Yn wyneb cystadleuaeth o'r fath, bu dirywiad yn niwydiant tecstilau India. Yn 1840 ymffrostiodd yr *East India Company* 'wedi'n hysgogi a'n cynorthwyo gan ein medr a'n sgil cynhyrchu ardderchog, [rydym wedi] llwyddo i drawsnewid India o wlad sy'n cynhyrchu i wlad sy'n allforio deunydd crai'.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r daflen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Cotwm ac annibyniaeth

Wedi troi cefn ar ddeddfwriaeth diffyndollol yn 1925, cadarnhawyd India eto fel un o'r prif allforwyr defnydd. Dros y blynyddoedd, daeth cynhyrchu defnydd a dillad i gael ei gysylltu gyda brwydr India dros annibyniaeth. Defnyddiodd Mahatma Gandhi y diwydiant gwehyddu yn y cartref fel ffordd o dynnu sylw pobl at wirionedd awdurdod masnachol gan lywodraethwyr tramor. Daeth 'Khadi' (defnydd o gotwm lleol wedi'i nyddu a'i wehyddu â llaw) yn symbol o annibyniaeth ac adfywiodd ddiwydiant gwyddion llaw India.

Fel nifer o wledydd eraill sy'n cynhyrchu cotwm yn y de, mae India eto wedi wynebu problemau yn ddiweddar. Mae nifer o wledydd yn dibynnu ar allforio deunyddiau crai fel cotwm neu goffi. Maent yn cael eu hannog i allforio mwy o gnydau fel ffordd o roi terfyn ar dlodi. Efallai bod hyn yn ymddangos yn syml, ond pan fo llif enfawr i farchnad y byd, mae prisiau yn anwadal iawn. A ffermwyr bychain, heb unrhyw ffynhonnell incwm arall, sydd ar eu colled pan fo prisiau yn syrthio.

Mae gwledydd sy'n cynhyrchu cotwm a thecstilau hefyd wedi dioddef yn ddiweddar yn sgil rhwystrau masnachol. Roedd cytundeb Multi-Fibre Arrangement (MFA) yn cyfyngu ar allforion gan wledydd sy'n cynhyrchu tecstilau. Mae'r rhwystrau masnachol hyn yn costio bron i $50 biliwn y flwyddyn i wledydd tlawd – bron cymaint â'r holl gymorth Gorllewinol gyda'i gilydd. Er bod beirniadaeth lem ar y system hon, o leiaf gosododd sefydlogrwydd ar gyfer allforwyr tecstilau.

Newidiadau masnach

Mae'r MFA bellach wedi'i gollwng yn raddol, ond mae newidiadau yn amodau masnachu'r byd wedi cael effaith niweidiol ar wledydd y De. Wrth ryddhau masnach, mae diwydiant dillad India yn fwy agored i gystadleuaeth tramor. Wrth i werthwyr gystadlu i werthu dillad, maent yn mynnu costau cynhyrchu is ac yn is. Mae hyn yn gorfodi cwmnïau mewn llefydd fel India i dorri cyflogau, lleihau sicrwydd swyddi, a chaniatáu i safonau diogelwch ddirywio.

Mae'r diwydiant tecstilau yn gyflogwr enfawr yn India ac yn un o'r prif ffynonellau cyflogaeth. Mae'r diwydiant tecstilau yn cyflogi tua 35 miliwn o bobl ac yn cyfateb i tua 20 y cant o allforion India.
Yn 2006, roedd tecstilau yn cyfateb i tua un rhan o chwech o enillion allforion India, yn 4 y cant o'r gyfran fyd-eang. Ar hyn o bryd, India yw'r cynhyrchydd cotwm mwyaf ond dau. Yn y flwyddyn 2005/2006, cynaeafwyd 19.6 miliwn o dunelli yno.

Cynhyrchir defnydd naill ai mewn ffatrïoedd gan beiriannau neu ar wyddion llaw. Mae tua 12.5 miliwn o wehyddion gwyddion llaw yn India, sydd fel rheol yn gweithio o'r cartref neu mewn unedau cynhyrchu bychain, yn aml yn gwerthu eu defnyddiau i ryngfasnachwyr.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r daflen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.

Dros y blynyddoedd diweddar mae gwehyddion gwyddion llaw yn arbennig wedi dioddef rhwystrau sylweddol yn eu gwaith. Mae pris rhyngwladol edau cotwm wedi codi ac felly mae'n well gan y rhai sy'n tyfu cotwm allforio. Mae gwehyddion gwyddion llaw wedi methu cystadlu gyda'r ffatrïoedd sy'n medru fforddio prynu edau ar brisiau uwch. Mae miloedd wedi colli eu bywoliaeth ac yn wynebu newyn.

Cysylltiadau gyda'r DU

Y cysylltiad olaf yn y Lein Ddillad yw siopau ar stryd fawr y DU. Yn 2001, gwariodd pobl y DU £27 biliwn ar ddillad (sy'n cyfateb i £460 y person). Roedd cyfradd fawr o'r dillad hyn wedi'u mewnforio o Asia, ond mae nifer o bobl yn y DU hefyd yn gweithio yn y diwydiant dillad. Mae llawer o'r gwaith cynhyrchu yn cael ei wneud gan fenywod yn eu cartrefi – mae dros filiwn o weithwyr cartref yn y DU. Maent yn aml yn wynebu problemau tebyg i'r gweithwyr cyfatebol yn India, yn cael eu gorfodi i weithio am gyflog isel fel y gellir gwerthu eu nwyddau mor rhad ag sy'n bosibl.

Yn ddiweddar mae nifer o fudiadau wedi dechrau galw am 'ddillad glân' nad ydynt wedi'u cynhyrchu dan amodau annheg. Maent yn gofyn i fanwerthwr yn y DU gyflwyno cod ymddygiad – neu gryfhau codau cyfredol – er mwyn gwarantu amodau gwaith teg ar gyfer y bobl sy'n gwneud y dillad. Ymysg eu galwadau mae oriau gwaith rhesymol, cyflog teg, sicrwydd swyddi, trin gweithwyr gwahanol yn gyfartal, peidio cyflogi plant, a dim llafur gorfodol.

Heddiw, ar ddiwedd y Lein Ddillad, mae cwsmeriaid yn sylweddoli bod ganddynt rym fel defnyddwyr, ac y gallant ofyn am ddillad a wnaed dan amodau teg.

Drwy fentrau Masnach Deg, mae Oxfam wedi bod yn ymgyrchu ers degawdau dros well bargen i gynhyrchwyr y Trydydd Byd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r daflen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.